



Dinas a Sir Abertawe

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi  
Addysg a Sgiliau**

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 12 Rhagfyr 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cyngorydd(wyr)**

J P Curtice  
M A Langstone

**Y Cyngorydd(wyr)**

M Durke  
S Pritchard

**Y Cyngorydd(wyr)**

L R Jones  
D W W Thomas

**Swyddog(ion)**

Gareth Borsden  
Sue Edgar  
Stephen Holland  
Mark Sheridan

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
Pennaeth Uned y Cyfnod Cynradd  
Uwch-Gyfreithiwr  
Pennaeth y Gwasanaeth Dysgwyr Diamddiffyn

**Hefyd yn bresennol:**

Ysgol Gynradd San Helen

Mark Thompson – Pennaeth

Jack Branford - Cynorthwy-ydd Addysgu'r Adran Iau

Alison Cable - Rheolwr Dechrau'n Deg

Beth Cunningham - Arweinydd Cynnwys Teuluoedd

Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan

Emma Pole - Pennaeth

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Dim.

---

**28 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiad canlynol:

Datganodd y Cyngorydd S Pritchard gysylltiad personol â chofnod 30 - fel Llywodraethwr ALI yn Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan.

**29 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2018 fel cofnod cywir.

**30 Mark Thompson - Pennaeth Ysgol Gynradd San Helen ac Emma Pole - Pennaeth Gweithredol Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan.**

Croesawodd y Cadeirydd y ddau bennaeth, Mark Thompson a'i staff o Ysgol San Helen ac Emma Pole o Ysgol Cefn Hengoed, i'r cyfarfod.

Darparodd Mark Thompson, yn ogystal â Jack Branford, Alison Cable a Beth Cunningham, gyflwyniad PowerPoint a oedd yn amlinellu'r meysydd canlynol ac yn manylu arnynt:

- Cefndir cymuned yr ysgol a'i chyfansoddiad - ysgol canol dinas, 28 o ieithoedd gwahanol, 24 cenedligrwydd gwahanol, 90% yn ddysgwyr Saesneg fel iaith Ychwanegol, ardal Cymunedau'n Gyntaf, poblogaeth dros dro, presenoldeb wedi newid o fod ymysg yr isaf yn Abertawe yn 2010 i fod yn un o'r 10% orau yn 2017, adroddiad Estyn ardderchog;
- Rhaglen Leadership Matters - Datblygu tîm arweinyddiaeth, gweithio cydweithredol rhwng yr holl staff yn yr ysgol, pwysigrwydd gweithio gyda'r plant/rhieni/gymuned;
- Cyd-destun a chefnidir gwaith ysgolion, sy'n canolbwyntio ar helpu'r plant i elwa mewn ffyrdd efallai na fyddant yn gweithio mewn ysgolion eraill ond sy'n llwyddiannus yn ein cymuned ni;
- Diwylliant a hinsawdd yr ysgol a'r gymuned, effaith gadarnhaol fawr y rhaglen Dechrau'n Deg a'r gallu i gael staff ychwanegol sy'n caniatáu cyswllt rheolaidd â phlant a rhieni o 2 oed. Amlinellwyd y berthynas waith ardderchog â sefydliadau ieuchyd;
- Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn isel ar gyfer ysgol canol dinas - £32,000 y flwyddyn yn unig, ac mae angen gwario'r arian hwn yn briodol er mwyn gallu cael yr effaith fwyaf ar y plant, ac er mwyn i'r plant elwa fwyaf ohono. Amlinellwyd y rhesymau a'r materion a oedd wedi arwain at y ffigur isel;
- Darperir gweithgareddau yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ôl ysgol megis wythnos ddyheadau, clwb dadlau, clwb llythrennedd, clwb mathemateg, côr, cylchgrawn yr ysgol, clwb gemau bwrdd etc;
- Caiff disgyblion sy'n cyflawni'n is a disgyblion sy'n cyflawni'n uwch eu clustnodi i dderbyn y cymorth a'r anogaeth briodol er mwyn eu helpu i wneud cynnydd a chyflawni;
- Mae clybiau galw heibio ar gael i rieni sy'n cynnig cymorth gyda TGCh, yr iaith Saesneg, ymweliadau cartref, cymorth i gadw'n heini etc;
- Amlinellwyd y ffaith bod yr ysgol yn nalgylch Ysgol Dylan Thomas, ond eir yr holl blant i Ysgol yr Olchfa neu Ysgol yr Esgob Gore;
- Manylwyd ar ganlyniadau disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n dangos gwelliant parhaus;
- Soniwyd am ymdrech ac ymroddiad rhagorol y staff.

Gofynnodd aelodau a swyddogion gwestiynau amrywiol i staff yr ysgol am gyfansoddiad yr ysgol a'i chymuned, y rhesymau dros y niferoedd PYDd isel, a'r mentrau a'r strwythurau sydd ar waith yn yr ysgol, ac ymatebodd y staff yn briodol i'r cwestiynau hyn.

Cyfeiriodd Emma Pole at y materion a'r amgylchiadau gwahanol sy'n effeithio ar ei hysgol hi, o'i chymharu ag Ysgol San Helen.

Soniodd am gyfansoddiad amrywiol ei hysgol hi hefyd, sydd bellach yn cynnwys 50% o ddisgyblion nad ydynt yn Gatholig ac sy'n cynnwys 42 genedligrwydd gwahanol a 46 o ieithoedd, gyda 21% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim.

Mae'r % uchel o ddisgyblion PYDd a lefelau amddifadedd y cymunedau cyfagos yn golygu bod yr ysgol yn derbyn Grant Amddifadedd Disgyblion gwerth £254,000.

Dywedodd fod yr ysgol yn archwilio ac yn defnyddio dulliau arfer da, megis Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton, y Gronfa Gwaddol Addysgol a chanllawiau arfer da Estyn.

Dywedodd fod lefelau cynyddol o gefnogaeth a chymorth ar gael i bob disgybl drwy ddarpariaeth gweithgareddau a chlybiau cefnogi amrywiol megis y parth dysgu, cefnogaeth cyfoedion, gwell darpariaeth llyfrgell/TG, menter ddiagnostig disgyblion, a soniodd am gyfranogiad ardderchog a rheolaidd disgyblion yn y clybiau hyn.

Nododd fod y Grant Amddifadedd Disgyblion wedi galluogi'r ysgol i gyflogi Rheolwr a Dirprwy lechyd a Lles. Mae'r staff hyn yn dod i gysylltiad â disgyblion a rhieni ym mhob agwedd ar eu bywydau ysgol a phersonol megis trwy gynnig cefnogaeth ac anogaeth ychwanegol yn eu dysgu, a helpu ag anghenion cymdeithasol/emosiynol/iechyd, neu faterion diogelu etc.

Datblygwyd rhaglen "anogaeth" gan ddilyn yr uchod sy'n llwyddiannus iawn.

Nododd fod gan yr ysgol Chweched Dosbarth llwyddiannus gyda 99% o'r disgyblion yn llwyddo yn eu dewis cyntaf o ran addysg uwch. Cyfeiriodd at yr agwedd wahanol a fabwysiadwyd gan yr ysgol o ran ei pholisi derbyn i'r Chweched Dosbarth.

Amlinellodd fod yr ysgol yn canolbwyntio'n fawr ar ganlyniadau arholiadau gan eu bod yn rhoi cymwysterau am fywyd, symudedd cymdeithasol a deilliannau allweddol i bobl ifanc sy'n hanfodol iddynt wrth dyfu'n oedolion. Nododd fod 44% o fyfyrwyr TGAU wedi cyflawni 5 gradd A-C yn 2017, sy'n ddwywaith y ffigur a gafwyd yn 2010.

Yn ychwanegol i'w chyflwyniad llafar dosbarthodd ddogfen fanwl i'r aelodau a oedd yn ymwneud ag Ysgol yr Esgob Vaughan, ac a oedd yn amlinellu amrywiaeth eang o wybodaeth mewn perthynas â'r pynciau amrywiol y mae'r pwyllgor wedi bod yn ymchwilio iddynt, gan gynnwys data disgyblion PYDd, % y Grant Amddifadedd Disgyblion a'r swm a gafwyd, ymagweddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, arfer da, mentrau mewnol yr ysgol a darpariaeth yn ystod ac ar ôl ysgol.

Gofynnodd yr aelodau a'r swyddogion gwestiynau amrywiol i Emma mewn perthynas â'r pynciau a amlinellwyd uchod ac yn y daflen a ddarparwyd, ac ymatebodd Emma'n briodol i'r cwestiynau hynny.

Diolchodd y Cadeirydd a'r aelodau i'r penaethiaid a'u cydweithwyr am eu mewnbwn a'u presenoldeb.

**31 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

Amlinellodd y Cadeirydd gynllun gwaith y pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn  
ddinesig 2018/2019

**Penderfynwyd** nodi'r cynllun gwaith fel a ddangosir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.55 pm

**Cadeirydd**